

Arfer da ar gyfer cyfieithu dogfennau

Gofyn am Gyfieithydd

Mae Gwasanaeth Cyfieithu Cymru yn gweithredu o 7am-10pm gyda gwasanaeth brys ar gael 10pm-7am ddydd Llun i ddydd Sul. Os oes angen cyfieithydd arnoch, cysylltwch â ni drwy:

- Porthol Gwasanaeth Cyfieithu Cymru (os ydych wedi cofrestru)
- Ffôn - 02920 537555
- [Iaith Arwyddion Prydain \(IAP\)](#)
- E-bost- WITS@Caerdydd.gov.uk

Mewn achosion lle mae angen cyfieithydd ar frys, ffonwch ni.

A wnewch chi ddarparu'r wybodaeth isod cyn i chi wneud y cais:

- Sefydliad ac Adran:
- Enw, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- Rhif archeb (os yw'n berthnasol)
- Natur y cyfieithu (mae hyn i ni gael sicrhau bod gan y cyfieithydd y cymhwyster priodol a/neu'r profiad i wneud y cyfieithu)
- Dyddiad a'r Amser yr ydych am i'r ddogfen sydd wedi'i chyfieithu i gael ei dychwelyd
- Yr iaith iddi, ac ohoni e.e. Saesneg > Arabeg
- Unrhyw ofynion penodol

Ystyriwch hyd a chymhlethdod y ddogfen gan y bydd hyn yn adlewyrchu pryd y bydd y cyfieithu'n cael ei gwblhau.

Ar ôl cadarnhau cyfieithydd, bydd Gwasanaeth Cyfieithu Cymru yn e-bostio cadarnhad i'r swyddog archebu. **Sicrhewch eich bod yn cael hyn. Os oes unrhyw amheuaeth, cysylltwch â Gwasanaeth Cyfieithu Cymru.**

Unwaith mae'r cyfieithiad wedi'i gwblhau, bydd y swyddog sy'n gwneud y cais yn derbyn dolen i gael gafael ar y ddogfen o'n porthol ar-lein diogel. Unwaith i'r cyfieithu gael eu gwblhau, bydd y swyddog sy'n gwneud y cais yn derbyn rhestr o gostau.

Dogfen

Gwnewch yn siŵr bod y ddogfen Saesneg wedi'i hysgrifennu'n eglur, yn ffeithiol gywir ac os yn bosibl, mewn iaith syml. Ceisiwch osgoi jargon. Bydd hyn o gymorth i'r cyfieithydd ac yn sicrhau cywirdeb.

Ni ellir cyfieithu nifer o eiriau Saesneg i ieithoedd eraill gan nad oes gwasanaeth neu iaith gyfatebol, yn arbennig os ydynt yn eiriau neu jargon a ddefnyddir gan wasanaeth penodol. Felly argymhellwn esbonio termau tebyg.

Ystyriaethau o ran cynllun a fformat

Negeseuon testun

Caiff negeseuon ffôn symudol eu recordio fel Cyfieithiad. Bydd y cyfieithydd yn cyfieithu o un iaith i'r iaith ddewisol.

Recordiadau Sain

Wrth gyfieithu recordiadau sain, caiff hyn ei recordio fel trawsgrifiad. Bydd y cyfieithydd yn trawsgrifio'r ddogfen yn iaith y recordiad sain; ansawdd ac eglurder y sain fydd yn penderfynu faint o amser gymer hyn. Bydd y cyfieithydd wedyn yn cyfieithu'r ddogfen i'r iaith ofynnol.

Enghraifft:

